

<b>OPSIYNAU CARTREF FRONDEG</b>			
		<b>Gwariant Cyfalaf</b>	<b>Cyfanswm Refeniw Blynyddol</b>
<b>1</b>	<b>Parhau gyda trefniadau presennol (10 preswlydd) Gwaith cwbl angenrheidiol ar yr adeilad yn unig</b>	<b>£286,000</b>	<b>Cost Ychwanegol Blynyddol £13,000</b>
	<p><b>Cryfderau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysondeb i'r defnyddwyr/teuluoedd presennol</li> <li>• Staff sefydlog wedi derbyn hyfforddiant a sgiliau perthnasol</li> <li>• Lefel bodlonrwydd uchel gyda'r ddarpariaeth bresennol</li> </ul>		
	<p><b>Gwendidau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Costau uwch i'r Cyngor, oherwydd ariannir yr elfen llety yn ogystal â gofal; h.y. gofal preswyl yn hytrach na thenantiaeth</li> <li>• Risg cynnydd ariannol i'r Cyngor a ddim yn gynaliadwy yn y tymor hir</li> <li>• 3 o'r ystafelloedd ddim yn cwrdd â gofynion/ safonau AGGCC (o ran maint yr ystafelloedd)</li> <li>• Argymhellion cydymffurfio a safonau AGGCC, ddim i ddefnyddio unrhyw ystafell sydd yn llai na 9.3medr sgwâr ar gyfer preswlydd o'r newydd.</li> <li>• Pe bai un o'r preswylwyr presennol Frondeg yn gadael, golyga na fydd posib cynnig ystafell i breswylwyr newydd yn ei lle.</li> <li>• Fel canlyniad i'r niferoedd ostwng bydd y gost uned yn cynyddu.</li> <li>• Dim yn cynnig hawl tenantiaeth i'r preswylwyr, sydd yn sylfaenol i hybu eu hannibyniaeth.</li> <li>• Dim yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn galw ar gyfer unigolion fydd angen llety a chefnogaeth i'r dyfodol.</li> <li>• Angen cwblhau gwaith er mwyn sicrhau cydymffurfio gyda rheolau tân os parhau i ddefnyddio'r adeilad am gyfnod hir (Regulatory Reform Order (Fire Safety) 2005)</li> <li>• Gall gwaith ar yr adeilad amharu ar fywydau'r trigolion a staff</li> <li>• Y model presennol yn fodel traddodiadol dim yn cyd-fynd a strategaeth Llywodraeth Cymru 'Polisi ac Arferion i Oedolion sydd ag Anabledd Dysgu 2007'.</li> <li>• Mynd yn groes i strategaeth ranbarthol Gogledd Cymru – adroddiad Mobius UK Developing 'Citizen Centred' Services for People with Learning Disabilities (2008)</li> <li>• Os byddai anghenion unrhyw breswlydd yn newid i fod angen gofal nyrsio llawn, buasai angen ail leoli, oherwydd mai cartref preswyl cofrestredig yn unig yw Frondeg.</li> </ul>		

2	<b>Addasu adeilad Frondeg i gwrdd â gofynion AGGCC ar gyfer 10 preswlydd (nifer presennol)</b>	<b>£520,000</b>	<b>Cost Ychwanegol Blynyddol £23,000</b>
<p><b>Cryfderau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysondeb i'r defnyddwyr/teuluoedd presennol</li> <li>• Staff sefydlog wedi derbyn hyfforddiant a sgiliau perthnasol</li> <li>• Lefel bodlonrwydd uchel gyda'r ddarpariaeth bresennol</li> <li>• Ystafelloedd yn cydymffurfio gyda rheoliadau AGGCC</li> </ul>			
<p><b>Gwendidau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Dim yn cynnig hawl tenantiaeth i'r preswylwyr</li> <li>• Costau uwch i'r Cyngor, oherwydd ariannir yr elfen llety yn ogystal â gofal; h.y. gofal preswyl yn hytrach na thenantiaeth</li> <li>• Risg cynnydd ariannol i'r Cyngor yn flynyddol</li> <li>• Ddim yn cymryd i ystyriaeth y cynnydd mewn galw ar gyfer unigolion fydd angen llety a chefnogaeth i'r dyfodol</li> <li>• Dim yn rhoi cyfle i unigolion sydd yn byw mewn lleoliadau all-sirol i ddod yn ôl i fyw i Wynedd.</li> <li>• Gwaith adeiladu sylweddol ar yr adeilad gall amharu ar fywydau'r trigolion a staff</li> <li>• Y model presennol yn fodel traddodiadol dim yn cyd-fynd a strategaeth Llywodraeth Cymru 'Polisi ac Arferion i Oedolion sydd ag Anabledd Dysgu 2007'.</li> <li>• Mynd yn groes i strategaeth ranbarthol Gogledd Cymru – adroddiad Mobius UK Developing 'Citizen Centred' Services for People with Learning Disabilities (2008)</li> <li>• Os byddai anghenion unrhyw breswlydd yn newid i fod angen gofal nyrsio llawn, buasai angen ail leoli, oherwydd mai cartref preswyl cofrestredig yn unig yw Frondeg.</li> </ul>			
3	<b>Gwneud defnydd llawn o'r adeilad ac addasu i gwrdd â gofynion AGGCC, ar gyfer 14 preswlydd (2 uned)</b>	<b>£800,000</b>	<b>Cost Ychwanegol Blynyddol £84,000</b>
<p><b>Cryfderau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysondeb i'r defnyddwyr/teuluoedd presennol</li> <li>• Staff sefydlog wedi derbyn hyfforddiant a sgiliau perthnasol</li> </ul>			

ATODIAD 1

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Lefel bodlonrwydd uchel gyda'r ddarpariaeth bresennol</li> <li>• Darparu gwasanaeth i 4 person ychwanegol</li> <li>• Ystafelloedd yn cwrdd â gofynion AGGCC</li> </ul>		
	<p><b>Gwendidau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Costau uwch i'r Cyngor, oherwydd ariannir yr elfen llety yn ogystal â gofal; h.y. gofal preswyl yn hytrach na thenantiaeth</li> <li>• Risg cynnydd ariannol i'r Cyngor yn flynyddol</li> <li>• Dim yn cynnig hawl tenantiaeth i'r preswylwyr</li> <li>• Gwaith adeiladu sylweddol ar yr adeilad gall amharu ar fywydau'r trigolion a staff</li> <li>• Newidiadau i'r preswylwyr presennol o ran symud unedau</li> <li>• Y model presennol yn fodel traddodiadol, dim yn cyd-fynd a strategaeth Llywodraeth Cymru 'Polisi ac Arferion i Oedolion sydd ag Anabledd Dysgu 2007'.</li> <li>• Mynd yn groes i strategaeth ranbarthol Gogledd Cymru – adroddiad Mobius UK Developing 'Citizen Centred' Services for People with Learning Disabilities (2008)</li> <li>• Os byddai anghenion unrhyw breswlydd yn newid i fod angen gofal nyrsio llawn, buasai angen ail leoli, oherwydd mai cartref preswyl cofrestredig yn unig yw Frondeg.</li> </ul>		
<b>4</b>	<p><b>Gwneud defnydd llawn o'r adeilad ac addasu i gwrdd â gofynion AGGCC ar gyfer 14 preswlydd mewn 2 uned (cynnwys uned 7 dwys/cymhleth)</b></p>	<b>£800,000</b>	<b>Arbediad Blynyddol £21,000</b>
	<p><b>Cryfderau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cysondeb i'r defnyddwyr/teuluoedd presennol</li> <li>• Staff sefydlog wedi derbyn hyfforddiant a sgiliau perthnasol</li> <li>• Lefel bodlonrwydd uchel gyda'r ddarpariaeth bresennol</li> <li>• Darparu gwasanaeth i 4 person ychwanegol gydag anghenion dwys/cymhleth</li> <li>• Yr opsiwn hwn yn rhoi cyfleodd i unigolion sydd yn byw mewn lleoliadau all-sirol i ddod yn ôl i fyw i Wynedd, cydymffurfio ag adroddiad Winterbourne</li> <li>• Posiblwydd o adnabod arbedion bychan yn y tymor hir</li> </ul>		
	<p><b>Gwendidau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Gwaith adeiladu sylweddol ar yr adeilad gall amharu ar fywydau'r trigolion a staff</li> <li>• Newidiadau i'r preswylwyr presennol o ran symud unedau</li> </ul>		

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Risg ariannol i'r Cyngor - pe na fyddai posib llenwi'r unedau</li> <li>• Nid yw'r opsiwn hwn yn cynnig hawl tenantiaeth i'r preswylwyr</li> <li>• Y model presennol yn fodel traddodiadol, dim yn cyd-fynd a strategaeth Llywodraeth Cymru 'Polisi ac Arferion i Oedolion sydd ag</li> <li>• Anabledd Dysgu 2007'.</li> <li>• Mynd yn groes i strategaeth ranbarthol Gogledd Cymru – adroddiad Mobius UK Developing 'Citizen Centred' Services for People with Learning</li> <li>• Disabilities (2008)</li> <li>• Os byddai anghenion unrhyw breswlydd yn newid i fod angen gofal nyrsio llawn, buasai angen ail leoli, oherwydd mai cartref preswyl cofrestredig yn unig yw Frondeg.</li> </ul>		
<p><b>5</b></p>	<p><b>Datblygu model Llety Cefnogol newydd wrth ymyl Cartref Frondeg ar gyfer 16 preswlydd (6 achos dwys, 10 cymedrol)</b></p>	<p><b>£3,800,000</b></p>	<p><b>Arbediad Blynyddol £143,000</b></p>
	<p><b>Cryfderau</b></p> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Cyfle i unigolion gael tenantiaeth ac i hybu eu hannibyniaeth dewis a rheolaeth</li> <li>• Cyd fynd gyda'r strategaeth ranbarthol (MobiusUK Developing "Citizen Centred" Services for People) a'r Strategaeth Llywodraeth Cymru</li> <li>• Costau gofal yn unig, nid yr adeilad – Cymdeithas Tai yn gyfrifol am yr elfen cynnal a chadw.</li> <li>• Mwy o ymreolaeth ariannol i'r tenantiaid i fyw bywydau llawn annibynnol</li> <li>• Unigolion yn ariannu costau rhedeg tŷ drwy dderbyn budd-daliadau</li> <li>• Arbedion ariannol sylweddol i'r cyngor drwy ariannu model newydd gwasanaeth sy'n galluogi cefnogi unigolion sydd ag anghenion dwys a chymhleth</li> <li>• Cyfleodd i unigolion sydd yn byw mewn lleoliadau all-sirol i ddod yn ôl i fyw i Wynedd.</li> <li>• Cynllunio ar gyfer cynnydd mewn galw yn y dyfodol</li> <li>• Gwasanaeth dwyieithog, cyd fynd a strategaeth ' Mwy na Geiriau', enwedig i'r bobl sy'n dychwelyd o leoliadau all-sirol.</li> <li>• Modd targedu gofal er mwyn sicrhau cwrdd ag anghenion unigolion yn hytrach na grŵp</li> <li>• Gwneud gwell defnydd o dechnoleg gynorthwyol</li> <li>• Gwell cyfle i gefnogi defnyddwyr i gyrraedd eu potensial yn y gymuned</li> <li>• Defnyddwyr presennol Frondeg yn parhau i fyw ar yr un safle wrth adeiladu'r adeilad newydd</li> <li>• Cyd-fynd gydag argymhellion adroddiad Winterbourne</li> <li>• Datblygu darpariaeth ar gyfer meysydd penodol e.e. awtistiaeth</li> </ul>		

ATODIAD 1

	<ul style="list-style-type: none"> <li>• Preswylwyr presennol Frondeg yn parhau i fyw yn agos i'w gilydd</li> <li>• Hybu'r economi lleol</li> <li>• Adeilad modern pwrpasol yn cwrdd ag anghenion pobl ag anabledau dwys i'r dyfodol</li> <li>• Parhau darparu gwasanaeth gofal gyda'r staff presennol</li> <li>• Cyflogi staff ychwanegol</li> <li>• Cyfleoedd datblygu sgiliau ac arbenigedd staff yn lleol</li> <li>• Staff presennol yn rhoi sefydlogrwydd a chefnogaeth i'r preswylwyr trwy'r cyfnod newid</li> </ul>		
	<ul style="list-style-type: none"> <li>• <b>Gwendidau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Preswylwyr presennol cartref Frondeg yn symud i amgylchedd gwahanol.</li> <li>• Risg ariannol i'r Cyngor - pe na fyddai posib llenwi'r unedau</li> <li>• Risg methu diogelu caniatâd cynllunio</li> <li>• Risg methu adnabod partner i ddatblygu</li> <li>• Ychydig o ansefydlogrwydd i'r preswylwyr presennol yn ystod cyfnod trosglwyddo</li> </ul> </li> </ul>		
<b>6</b>	<b>Ail leoli preswylwyr presennol Frondeg mewn Llety Cefnogol yn lleol Dod a gwasanaeth y cartref preswyl i ben</b>	<b>£0</b>	<b>Arbediad blynyddol £36,000</b>
	<b>Cryfderau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Arbediad bychan i'r Cyngor</li> <li>• Cyd fynd gyda gweledigaeth y Llywodraeth, a Strategaeth Ranbarthol</li> </ul>		
	<b>Gwendidau</b> <ul style="list-style-type: none"> <li>• Her i ddod o hyd i gartrefi addas yn lleol</li> <li>• Gwahanu defnyddwyr presennol Cartref Frondeg – er gallai rhai symud gyda'i gilydd</li> <li>• Colli'r cyfle i uchafu defnydd o Dechnoleg gynorthwyol</li> <li>• Ansefydlogrwydd i'r preswylwyr presennol yn ystod cyfnod trosglwyddo.</li> </ul>		